Busnes
Newyddion Busnes Môn
BUSNES YM MÔN
BUSINESS ON ANGLESEY

## Yn y rhifyn hwn

**Pam ymuno â'r siambr?**

**Rydym yn esbonio pam y bydd ymuno â'r sefydliad hwn o fantais i Fusnes Môn a'i aelodau.**

**Sut y bydd yn gweithio?**

**Rydym yn egluro beth y bydd yn ei olygu i chi fel aelod**

**Sut y bydd fy musnes yn elwa ohono?**

**Rydym yn rhestru'r holl fanteision y bydd y sefydliad yn eu rhoi i chi a'ch busnes**

**Lansiad swyddogol**

**Cynhelir y lansiad swyddogol ddydd Mawrth 26 Ionawr, pryd y bydd cyfle i aelodau presennol Busnes Môn a rhai nad ydynt yn aelodau ymuno. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn fuan.**

# Busnes Môn yn ymuno â Siambrau Masnach Prydain

West Cheshire & North Wales Chamber of Commerce
The Ultimate Business Network

**Mae Busnes Môn yn ymuno â Siambr Fasnach Gogledd Cymru a Gorllewin Sir Gaer er mwyn gallu darparu gwell cefnogaeth fusnes i'r ynys.**

O 2010 ymlaen gall ein haelodau elwa ar wybodaeth leol a chysylltiadau Busnes Môn yn ogystal ag adnoddau a chefnogaeth arbennig y Siambr Fasnach.

Mae trafodaethau wedi eu cynnal ers peth amser ynglŷn â sut y gallwn ddiogelu a chryfhau presenoldeb Busnes Môn ar yr ynys.

Gwnaethpwyd y penderfyniad i ymuno â'r Siambr Fasnach yn sgil llawer o waith meddwl. Nid yw aros yr un fath yn opsiwn oherwydd bod angen model busnes cynaliadwy ar Fusnes Môn.

Rydym yn eich gwahodd i gynnig eich sylwadau ar y trefniant o hyn tan ddyddiad swyddogol y lansio, sef dydd Mawrth 26 Ionawr.

Anfonwch unrhyw sylwadau neu gwestiynau at events@businessonanglesey.co.uk. Ond daliwch ati i ddarllen – mae mwy o wybodaeth yma!

Rydym wedi cytuno ar ffi aelodaeth arbennig gyda'r Siambr. Rydym eisiau sicrhau annibyniaeth Busnes Môn, a chredwn fod y trefniant yn hanfodol er mwyn denu busnes i'r ynys.

Gyda'n gilydd, credwn y gall Busnes Môn a'r Siambr Fasnach gynnig pecyn rhagorol o gefnogaeth i fusnesau Môn am flynyddoedd i ddod.

## Pam ymuno â'r Siambr Fasnach?

Ers ei sefydlu, mae Busnes Môn wedi cael ei gyllido gan Gyngor Sir Ynys Môn. Bwriad y cyllid hwn oedd caniatáu i Fusnes Môn sefydlu ei hun a datblygu'n grŵp hunan-gyllidol.

Gyda'r pwysau cynyddol ar arian cyhoeddus, roedd angen i Fusnes Môn ailasesu ei ddulliau gweithredu er mwyn parhau i weithredu a chynyddu.

Wrth ymuno â'r Siambr Fasnach, byddwn yn manteisio ar y dulliau gweithredu gweinyddol sydd wedi eu sefydlu ganddynt, i'n galluogi ni i wneud yn fawr o gyfleoedd i gynhyrchu incwm.

Ar yr un pryd, bydd yn rhyddhau cyfarwyddwyr Busnes Môn i fod yn fwy gweithredol a darparu digwyddiadau defnyddiol a chyfleoedd rhwydweithio y gall aelodau fanteisio'n llawn arnynt.

## Sut fydd hyn yn gweithio?

Ddydd Mawrth, 26 Ionawr byddwn yn cynnal digwyddiad lansio. Yn ystod y digwyddiad byddwn yn chwilio am aelodau newydd i ymuno a manteisio ar y cynnig arbennig i rai sy'n ymuno'n gynnar.

Ar ôl iddynt ymuno, bydd aelodau'n cael mynediad at adnoddau a digwyddiadau'r Siambr Fasnach yn syth, yn yr un modd ag unrhyw aelod arall o'r Siambr. Darllenwch ymhellach i gael gwybod am rai manteision o fod yn aelod o'r Siambr.

Bydd aelodau hefyd yn cael bod yn bresennol yn holl ddigwyddiadau a chyfarfodydd rhwydweithio Busnes Môn, ac yn parhau i dderbyn y newyddlen.

Gyda chymorth y Siambr, bydd Busnes Môn yn parhau'n sefydliad annibynnol sy'n gweithio'n unol ag anghenion busnesau'r ardal.

Bydd logos y Siambr Fasnach yn cael eu hychwanegu at frand Busnes Môn.

## Sut fydd fy musnes i'n elwa o hyn?

Fel aelod, byddwch yn parhau i gael yr un manteision ag unrhyw un sydd eisoes yn aelod o Fusnes Môn.

Ond gyda chefnogaeth y Siambr, byddwn yn gallu darparu digwyddiadau gwell, fel *Meet the Buyer*, a denu mwy o siaradwyr gwadd, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd rhwydweithiol rheolaidd fel rydym eisoes yn ei wneud.

Byddwch hefyd yn cael mynediad at holl adnoddau, digwyddiadau a chynigion y Siambr Fasnach i helpu busnesau dyfu a dod yn fwy proffidiol.

Bydd modd i chi gysylltu â rhwydwaith eang o fusnesau ar hyd a lled gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr. Mae Siambr Fasnach Gogledd Cymru a Gorllewin Sir Gaer yn cynrychioli 90,000 o weithwyr yr ardal, ac mae hyn yn cynyddu.

I gael rhestr fwy cyflawn o fanteision y Siambr, ewch i'w gwefan:
www.cepnwchamber.org.uk

## Beth fydd y gost?

Rydym wedi llwyddo i gytuno ar ffi aelodaeth arbennig gyda'r Siambr. Mae hwn yn is na ffi aelodaeth safonol y Siambr, sy'n amrywio yn ôl maint y busnes. Edrychwch ar y siart ffioedd ar y dudalen nesaf.

## Yn fyr

- Busnes Môn i ymuno â Siambr Fasnach Gogledd Cymru a Gorllewin Sir Gaer
- Bydd Busnes Môn yn cadw rheolaeth lawn gyda phrif frandio, ond bydd yn cael ei gefnogi gan weinyddiaeth ac adnoddau'r Siambr.
- Bydd aelodau'n manteisio ar y gorau o'r naill a'r llall – dull profiadol, priodol Busnes Môn o ddelio ag anghenion busnesau lleol, a rhwydwaith ac adnoddau eang y Siambr i helpu i wneud eich busnes yn fwy llwyddiannus a phroffidiol
- Ymunwch â Busnes Môn ar ei wedd newydd a chryfach yn ein lansiad swyddogol ddydd Mawrth 26 Ionawr

## Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

Hoffwn glywed eich sylwadau.

Cysylltwch â ni drwy e-bostio
events@businessonanglesey.co.uk

## Dyma ddyddiad ar gyfer eich dyddiadur:

Dydd Mawrth, 26 Ionawr am 6 o'r gloch, lansiad swyddogol Busnes Môn ar ei newydd wedd. Anglesey Arms, Menai Bridge. Yn ystod y digwyddiad hwn byddwn yn chwilio am aelodau newydd i ymuno â ni a manteisio ar gynnig arbennig wrth ymaelodi'n gynnar.

Cewch ymaelodi yn ystod y digwyddiad a chael tri mis o aelodaeth ychwanegol am ddim, yn ogystal â mynediad yn ddi-dâl i ddigwyddiad *Business Growth Club*.

# Ffioedd aelodaeth a nodiadau

**Mae Busnes Môn wedi cytuno ar ffioedd arbennig, rhatach ar gyfer ymaelodi â'r sefydliad Busnes Môn/Siambr Fasnach newydd.**

Mae'r ffioedd wedi eu nodi yn y tabl isod. Cofiwch, bydd hyn yn caniatáu i chi fwynhau holl fanteision bod yn aelod o'r Siambr am bris rhatach yn ogystal â chael mynediad at holl wasanaethau Busnes Môn.

Sylwch: Bydd busnesau newydd Ynys Môn yn parhau i gael ymaelodi am ddim â Busnes Môn am y 12 mis cyntaf, ond nid â'r Siambr Fasnach. Os ydynt yn dymuno cael manteision y Siambr, bydd rhaid iddynt dalu'r ffi aelodaeth briodol (£100).

Mae'n rhaid i aelodau cysylltiol Busnes Môn – y rhai sydd â busnesau oddi ar yr Ynys – fod wedi ymuno â Busnes Môn cyn 1 Tachwedd 2009 er mwyn manteisio ar y ffi aelodaeth ostyngol.

Ni fydd y taliadau newydd yn berthnasol i rai o Ynys Môn sydd eisoes yn aelodau o'r Siambr nes daw eu blwyddyn aelodaeth bresennol i ben. Gostyngir y taliadau a dalwyd i Fusnes Môn o 50% ar gyfer aelodau Siambr Ynys Môn a ymunodd â'r Siambr cyn 1 Ionawr 2010.

| Categori | Pris arferol y Siambr Fasnach | Pris arbennig i Fusnes Môn/ Siambr Fasnach |
|---|---|---|
| Busnesau newydd | £100 | **N/A** |
| Unig fasnachwyr | £160 | **£110** |
| 1 i 4 | £268 | **£150** |
| 5 i 10 | £299 | **£170** |
| 11 i 25 | £335 | **£180** |
| 26 i 50 | £371 | **£220** |
| 51 i 100 | £567 | **£465** |
| 101 i 250 | £716 | **£640** |
| 251 i 500 | £901 | **£800** |
| 501 + | £1082 | **£980** |

# Cysylltwch â ni!

**Yn newyddion da neu ddrwg, hoffem glywed gennych!**
Efallai eich bod eisiau lleisio'ch barn am faterion lleol neu genedlaethol. Effalai eich bod wedi darllen am rywbeth yn y wasg. New efellai bod gennych newyddion am eich busnes eich hun. Wedi ennill contract newydd? Yn penodi staff? Yn lansion cyn-nyrch neu wasanaeth newydd? Hoffem wybod!
Ebostiwch
phil.thomas@wordcreative.co.uk

## Mae elusen yn dechrau gyda rhwydweithio

Daeth Busnes Môn, Rhwydwaith Busnes Gwynedd a Chlwb Busnes Prifysgol Bangor at ei gilydd i drefnu'r Parti Busnes Mawr, sef digwyddiad cymdeithasol a gynhaliwyd yn y Ganolfan Rheolaeth, Ysgol Busnes Bangor.

Daeth mwy na 80 o fusnesau i'r digwyddiad, y cyntaf o nifer a fydd yn cael eu cynnal gan y tri sefydliad yn ystod 2010.

Cododd y digwyddiad dros £300 drwy gyfrwng raffl at Dŷ Gobaith ac Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru. I gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau rhwydweithio nesaf a gynhelir yn y Ganolfan Rheolaeth, ewch i www.themanagementcentre.co.uk

# Mae ceisiadau am gyllid ar gyfer swyddi ychwanegol angen eich cefnogaeth!

**Ydych chi'n credu y bydd eich busnes chi angen mwy o weithwyr yn ystod 2010 – cymorth y gallwch ei gael yn rhad ac am ddim o bosib?**

Hoffwn glywed gennych!

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a'r sefydliad *Groundwork* wrthi'n gwneud cais i gael mwy o gyllid ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd a fydd yn talu cyflogau a chostau ar gyfer gweithwyr newydd.

Menter Llywodraeth y DU yw Cronfa Swyddi'r Dyfodol ar gyfer creu 150,000 o swyddi ychwanegol, wedi eu hanelu at bobl ifanc 18-24 oed sy'n ddi-waith ers bron i flwyddyn.

Y nod yw cynnig swyddi, profiad gwaith, neu hyfforddiant i'r bobl ifanc yma, fydd yn para o leiaf 6 mis.

Mae cyfanswm o 95,000 o swyddi eisoes wedi eu creu, felly, er mwyn i Ynys Môn elwa o'r cynllun, mae'n rhaid i ni weithredu'n gyflym i ddangos bod galw am waith yma.

Anfonwch e-bost at Jon Pinnington, Rheolwr Datblygu Busnes Cyngor Ynys Môn (jonpinnington@anglesey.gov.uk) os ydych yn credu y bydd gan eich busnes swyddi gwag.

# YnglŶn â Busnes Môn

**Busnes Môn yw prif rwydwaith annibynnol yr ynys ar gyfer busnesau lleol. Hwn yw'r corff sy'n cynrychioli busnesau annibynnol o bob maint a sector ym Môn.**

**Grŵp rhwydweithio llwyddiannus sy'n uno busnesau drwy Ogledd Cymru.**

**Yn darparu gwybodaeth i fusnesau am ddigwyddiadau a chyrsiau ar Ynys Môn a Gogledd Cymru.**

**Grŵp busnes sy'n dylanwadu ar economi Môn.**

- Os hoffech fod yn aelod, e-bostiwch Jo Quinney at events@businessonanglesey.co.uk

Mae pob gofal wedi ei gymryd wrth lunio'r cyhoeddiad hwn, ac ni fydd Busnes Môn yn gyfrifol am gamgymeriadau neu esgeulustod. Nid yw'r deunydd sy'n ymddangos yn yr erthyglau o anghenraid yn cynrychioli barn Busnes Môn. Nid yw Busnes Môn yn gwarantu nac yn ardystio cynnyrch neu wasanaethau y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad ac ni fydd Busnes Môn yn atebol am gynnyrch neu wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y cyhoeddiad.

*Mae Busnes ym Mon ar hyn o bryd, neu yn y gorffennol, wedi cael arian rhannol gan y sefydliadau canlynol.*

PRODUCED BY PHIL THOMAS OF WORDCREATIVE 07932 157471 www.wordcreative.co.uk